


LLAIS

Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care

# ADRODDIAD EIN EFFAITH 2023/2024



Yr Athro. Medwin Hughes

# NEGES GAN EIN CADEIRYDD

Mae'r Bwrdd a minnau'n hynod falch o'r cynnydd rydym wedi'u gwneud fel sefydliad newydd, ac rydym yn ddiolchgar am ymrwymiad diwyro ein staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid.

Ers ein sefydlu ar Ebrill 1, 2023, rydym wedi canolbwyntio ar osod sylfaen gref. Roedd ein hymdrechion cychwynnol wedi'u cyfeirio at wrando – ar y cyhoedd, ein rhanddeiliaid, a'n tîm ein hunain. Roedd y cyfnod sylfaen hwn yn ein galluogi i ddeall anghenion a dyheadau'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Er gwaethaf cymhlethdodau sefydlu systemau newydd ac integreiddio staff a gwirfoddolwyr newydd, rydym wedi cymryd camau breision i adeiladu fframwaith cadarn sy'n cefnogi ein cenhadaeth.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o fentrau i godi llais y Cymry. O fynychu digwyddiadau lleol a chenedlaethol i lansio ymgyrch farchnata amlgyfrwng gynhwysfawr, mae ein hymdrechion wedi'u hanelu at godi ymwybyddiaeth o'n rôl annibynnol wrth wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi llwyddo i sefydlu partneriaethau cryf gyda chyrff y GIG, awdurdodau lleol, a sefydliadau trydydd sector, sydd wedi bod yn allweddol i gefnogi ein hymdrechion.


Rydym yn ymroddedig i wneud Llais yn sefydliad uchelgeisiol, sy'n cael ei redeg yn dda ac y gellir ymddiried ynddo. Bydd ein gweledigaeth ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf yn gosod nodau uchelgeisiol i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gweithio orau i bawb. Byddwn yn parhau i ddysgu, addasu a thyfu, gan roi blaenoriaeth bob amser i anghenion a lleisiau'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Gan edrych ymlaen, bydd ein cynllun strategol ar gyfer 2024-2027 yn llywio ein hymdrechion i ysgogi sgwrs genedlaethol am ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd y sgwrs hon yn gynhwysol ac yn onest, gan fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu a meithrin consensws ynghylch atebion cynaliadwy.

Wrth inni symud ymlaen, rwy'n gwahodd yr holl randdeiliaid – o swyddogion y llywodraeth a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a'u teuluoedd – i ymuno â ni ar y daith drawsnewidiol hon. Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu system iechyd a gofal cymdeithasol sydd nid yn unig yn addas ar gyfer heddiw ond sydd hefyd yn barod ar gyfer yfory, sy'n perthyn yn wirioneddol i bobl Cymru. Diolch am eich ymrwymiad i iechyd a lles Cymru.

**Gadewch inni symud ymlaen gyda phenderfyniad ac optimistiaeth, yn barod i wneud gwahaniaeth ym mywydau pawb sy'n byw yng Nghymru.**



*Hoffwn ddiolch o galon i'r bobl a'r cymunedau ledled Cymru am roi o'u hamser i rannu eu barn â ni fel bod eu lleisiau'n helpu i lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Diolch hefyd i'n staff ymroddedig, gwirfoddolwyr, a phartneriaid am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth ddiwyro. Mae eich cyfraniadau yn hanfodol i'n llwyddiant, ac edrychaf ymlaen at barhau â'n hymdrechion cydweithredol i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.*

Mae ein blwyddyn gyntaf wedi bod yn ymwneud â gwrando, dysgu a gweithio gydag eraill i ddeall yr hyn yr ydych ei eisiau a'i angen gan eich gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaethom nodi ein cynlluniau ar gyfer ein blwyddyn gyntaf yn ein Cynllun 100 diwrnod ac Ein Cynlluniau a Blaenoriaethau (Hydref 2023 – Mawrth 2024). Y canlyniadau yr oeddem yn anelu atynt oedd:

Gwrando a chynrychioli eich barn a'ch profiadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Adeiladu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwneud gwahaniaeth.

Bod yn sefydliad uchelgeisiol sy'n cael ei redeg yn dda, y gellir ymddiried ynddo.

Adeiladu llais cryf mewn gofal cymdeithasol.

Siarad i helpu i gadw pobl yn ddiogel pan nad yw pethau'n iawn.

Gwneud hi'n hawdd cysylltu â chi a'n partneriaid, trwy fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.

Datblygu ein pobl, denu pobl newydd a chefnogi eu cyfranogiad yn ein gwaith.



Roedd gennym lawer i'w wneud i sicrhau ein bod yn cael y pethau sylfaenol yn iawn i'n helpu ni i'ch cefnogi chi, i ffurfio partneriaethau newydd, ac i fod yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn annibynnol.

## Ein Gweledigaeth

Rydym yn credu mewn Cymru iachach. System iechyd a gofal cymdeithasol lle mae pobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt ac sy'n barod ar gyfer beth bynnag a ddaw yn y dyfodol.

## Ein Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw gwrando'n ofalus, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, a chynyddu effaith lleisiau pobl wrth lunio gwasanaethau.



Rydym yn gweithio gyda phobl Cymru i roi llais cryfach i chi, a chynrychioli eich buddiannau, pan ddaw i iechyd a gofal cymdeithasol.

## Rydym yn gwneud hyn drwy:

### YMGYSYLLTU
Rydym yn ymgysylltu ac yn gwrando ar bobl am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n ceisio cwrdd â chymunedau yn y lleoedd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

### CYNRYCHIOLIADAU
Rydym yn cynrychioli'r farn a glywn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y gyfraith, rhaid iddynt roi gwybod i ni beth maent yn bwriadu ei wneud â'r safbwyntiau a'r profiadau yr ydym yn eu rhannu.

### EIRIOLAETH CWYNION
Rydym yn helpu ac yn cefnogi pobl pan fydd pethau'n mynd o chwith, a'u bod am wneud cwyn drwy y broses gwyno ffurfiol y GIG neu ei awdurdod lleol. Rydym hefyd yn darparu cyngor lle y gallwn i'r rhai nad ydynt wedi dechrau'r broses hon.

### CYFATHREBU & HYRWYDDO
Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod am ein gwasanaethau fel bod mwy o bobl yn gallu dweud eu dweud. Mae gan y cyrff iechyd a'r awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ein gwasanaethau hefyd.

Dyma ein gweithgareddau craidd, ac rydym yn seilio ein dangosyddion perfformiad allweddol ar y pedwar maes hyn yn ogystal â sut yr ydym yn gwneud o ran bodloni ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol.



# EFFAITH EIN HYMGYSYLLTU



# EIN GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU

Mae ein timau rhanbarthol yn gweithio mewn sawl ffordd i glywed eich llais. Efallai y byddwch yn cwrdd â ni yn un o'n digwyddiadau, gan godi ymwybyddiaeth o bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.

Efallai y byddwch yn ein gweld yn ymweld â'r mannau lle rydych yn derbyn eich iechyd a'ch gofal, neu allan yn eich cymuned.

Ein nod yw clywed beth sy'n bwysig i chi. Rydym yn:

**Gyrru Sgwrs Genedlaethol:** Trwy Llais Lleol, rydym yn dysgu am yr hyn sydd ei angen arnoch a'r materion sy'n eich wynebu, gan helpu i lunio dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Dylanwadu newid**: Rydym yn rhannu'r hyn a glywn â chyrff iechyd, awdurdodau lleol, a llunwyr polisïau Llywodraeth Cymru i helpu i wella gwasanaethau.

**Rydyn ni wedi gwrando ar bobl leol** am yr hyn maen nhw'n meddwl yw'r tri mater iechyd a gofal cymdeithasol pwysicaf sydd angen eu trwsio yn eu hardal. O'r mewnwelediadau a gawn gan Llais lleol, ymweliadau ac o'n harolwg cenedlaethol parhaus byddwn yn cwblhau tri phrosiect rhanbarthol. Byddwn yn gwneud gwaith wedi'i dargedu i ddarganfod llawer mwy am y blaenoriaethau hyn yn eich ardal.

Byddwn hefyd yn cadw llygad am bynciau pwysig sy'n deillio o'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn i'n helpu i gynllunio ein hymweliadau â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



# Effaith ymgysylltu #1

## Digwyddiad drws agored LGBTQIA+

Fe wnaethom gyd-gynnal digwyddiad drws agored gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i lansio eu cynllun strategaeth LGBTQIA+, rhannu gwybodaeth am y strategaeth, gwybodaeth am Llais a dod i adnabod y gymuned LGBTQIA+ yn rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Rhoddodd y digwyddiad gyfle i'r rhai a ddaeth i ofyn cwestiynau am y gwaith y mae Llais a'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud a gwnaethom gysylltiadau newydd gwych gyda sefydliadau cynrychioliadol ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol.



# Effaith ymgysylltu #2

## Gwasanaethau Fasgwlaidd

Mae ein tîm yng Ngogledd Cymru wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu cyngor a chefnogaeth annibynnol i'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan fethiannau canfyddedig gwasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru.

Yn nigwyddiad lansio'r Adroddiad Niwed Fasgwlaidd, fe wnaethom fabwysiadu dull cynorthwyedig i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, gan gynnig cyngor a chymorth i'r rhai oedd ei angen mewn perthynas â'r broses Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG. Fe wnaethom gynghori ar y camau nesaf, cynnig cefnogaeth ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion a chyfeirio at wasanaethau perthnasol eraill.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyfeirio at waith ein tîm yng Ngogledd Cymru fel ysgogwyr allweddol ar gyfer gwelliannau mewn gwasanaethau fasgwlaidd yn y rhanbarth.



# Llais Lleol

Fe wnaethom dreialu dull newydd Llais Lleol o ymgysylltu ym Mhowys. Mae hyn yn golygu treulio cyfnodau dwys o amser mewn amrywiaeth o drefi a chymdogaethau lleol i glywed beth sy'n bwysig i'r bobl sy'n byw yno.

Buom yn gweithio gyda chlybiau lleol, elusennau, a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'w gwneud yn hawdd i bobl rannu eu profiadau.






Un o ddeilliannau peilot Llais Lleol oedd ein bod wedi gweld cynnydd nodedig yn yr atgyfeiriadau i'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn yr ardaloedd hynny drwy'r gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

**Mae'r peilot wedi bod mor llwyddiannus fel ein bod yn ailadrodd y dull gweithredu ledled Cymru wrth symud ymlaen.**

# EFFAITH EIN CYNRYCHIOLAETH



# CYNRYCHIOLAETH

Fel Corff Llais y Dinesydd, rydym yn casglu ac yn dadansoddi eich barn, ac yn eu rhannu â phenderfynwyr allweddol yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau bod eich llais yn siapio'r gwasanaethau a gewch. Rydym yn dilyn proses ffurfiol ar gyfer cynrychioli eich barn.

O dan Adran 15(1) o Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, gallwn godi materion gyda chyrff y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Gallai'r materion hyn ddod o ymgynghoriadau gan y cyrff hyn neu drwy ein hymgysylltiad ein hunain â'r cyhoedd.

Mae'r broses sylwadau yn caniatáu ichi gael llais wrth lunio'r modd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd sy'n gweithio i chi. Mae'n golygu bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio gyda chi mewn golwg.

Mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth ddweud wrthym beth mae'n mynd i'w wneud â'r sylwadau a wnawn.  Os na allant weithredu ar y sylw, rhaid iddynt roi rheswm dilys i ni.

Rydym hefyd yn gweithio ar wella sut rydym yn cyfleu effaith y cynrychioliadau hyn yn ôl i chi. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gwrando a chynrychioli eich barn a'ch profiadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Diben cyffredinol y cynrychiolaethau hyn yw cefnogi'r broses o gyd-ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy ymhelaethu ac atgyfnerthu eich llais i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.




Ledled Cymru rydym wedi mynychu 234 o weithgareddau;

181 yn ymwneud ag Iechyd, 22 yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol a 31 yn ymwneud â Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

# Effaith Cynrychiolaeth #1

## Gwasanaeth dehongli BSL

Cysylltodd gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain (BSL) â ni gyda phryderon nad oedd ysbyty yn trefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i gleifion ar benwythnosau. Roedd yr ysbyty wedi cynghori'r gwasanaeth dehongli BSL "nad oes unrhyw therapïau yn digwydd dros y penwythnos" felly nid oeddent yn darparu'r gwasanaeth.

Roedd gwasanaeth dehongli BSL yn bryderus nid yn unig am y person yr oedd yn ei gefnogi, ond am gleifion eraill a allai fod angen defnyddio gwasanaethau BSL ar benwythnosau.

Fe wnaethom gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol ynghylch y person yr oedd angen cymorth arno yn ei apwyntiad penwythnos a'r pryderon ynghylch yr ysbyty ddim yn darparu gwasanaethau dehongli BSL yn fwy cyffredinol ar benwythnosau.

O ganlyniad, derbyniodd y person y dehongliad BSL yr oedd ei angen arno. Atgoffwyd yr holl staff nyrsio bod yn rhaid iddynt weithredu ar geisiadau unrhyw berson sydd wedi codi anghenion iaith fel rhan o'u gofynion i gael mynediad i apwyntiadau a mynychu apwyntiadau a derbyn y gofal iechyd sydd ei angen arnynt.



# Effaith Cynrychiolaeth #2

## Gwaharddiad digidol

Fe wnaethom gyflwyno cynrychioliadau i fwrdd iechyd am eu harolygon ar gyfer pobl sydd wedi cofrestru mewn 2 feddygfa. Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu copïau papur o'r arolygon fel y gallai pobl nad ydynt ar-lein gymryd rhan.

Newidiodd y bwrdd iechyd eu hymagwedd fel bod pobl sydd wedi cofrestru gyda'r meddygfeydd yn gallu cael y wybodaeth ar bapur yn ogystal ag yn ddigidol. Roedd hefyd yn cynnig cymorth i unrhyw un oedd angen cymorth pellach i gymryd rhan a rhannu eu barn.



# Effaith Cynrychiolaeth #3

## Apwyntiadau cleifion allanol

Dywedwyd wrthym am berson a oedd yn cael trafferth mynychu apwyntiadau cleifion allanol. Roedd eu hapwyntiadau wedi cael eu hailgyfeirio o'u hysbyty agosaf i ysbyty gwahanol ymhellach i ffwrdd. Roedd y 2 ysbyty yn cael eu rhedeg gan wahanol fyrddau iechyd lleol.

Gwnaethom gyflwyno cynrychioliadau i'r bwrdd iechyd a thrafodwyd hyn am bethau â'u bwrdd iechyd cyfagos fel y gallai'r claf barhau i gael ei apwyntiadau yn nes at ei gartref.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r bwrdd iechyd i wneud yn siŵr nad yw'r math hwn o broblem yn fwy cyffredin.





# EIN HEFFAITH DRWY YMGYNGHORIADAU A NEWID GWASANAETH

# YMGYNGHORIADAU A NEWID GWASANAETHAU

Mae ymgynghoriadau agored yn cynnwys cyfraniad Llais pan fydd cyrff iechyd a gofal cymdeithasol eisiau gwneud newidiadau yn y ffordd y darperir gwasanaethau. Gall hyn gael ei alw'n ad-drefnu, ailgyflunio, ailgynllunio, amrywio, gwella neu ehangu gwasanaethau.

Pan gynigir newidiadau i wasanaethau, rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth iddynt gynllunio, datblygu a dylunio gwasanaethau o'r dechrau er mwyn iddynt allu deall anghenion pobl yn awr ac yn y dyfodol. Ein rôl ni yw helpu i wneud yn siŵr eu bod yn casglu barn pobl a allai gael eu heffeithio ac yna'n meddwl ac yn ymateb i'r hyn maen nhw'n ei ddweud.

Rydym hefyd yn rhannu'r hyn a glywn â llunwyr polisi ac eraill pan fyddant am gael adborth neu farn ar y pethau y maent yn meddwl amdanynt neu'n bwriadu eu gwneud am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gall hyn fod trwy ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus neu ddarparu tystiolaeth i ymholiadau sy'n ymwneud ag agweddau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ledled Cymru roeddem yn rhan o **143 ymgynghoriadau agored** eleni. Gwnaethon ni hefyd **17 ymatebion i ymgynghoriadau cenedlaethol**, neu alwadau am dystiolaeth.



# Effaith Newid Gwasanaeth #1

## Adolygiad Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (GCTMB)

Gwyddom faint y mae'r newidiadau i'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (GCTMB) yn ei olygu i lawer ohonom, yn enwedig y rheini yn ardaloedd gwledig Cymru. Rydym wedi clywed cymaint y mae pobl yn poeni am y gwasanaethau brys y gallant hwy a'u hanwyliaid eu cael pan fydd eu hangen arnynt ac i lawer o bobl, mae gwneud yn siŵr nad yw unrhyw newidiadau i'r ffyrdd y darperir y gwasanaeth yn effeithio ar ansawdd na chyflymder y cymorth yn eu hardal yn bwysig.

Dyna pam rydym wedi bod yn cyfarfod â'r rhai sy'n gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth, gan rannu adborth y cyhoedd a'u hannog nid yn unig i ymgysylltu â'r cyhoedd, ond i wrando ac ymateb i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud. Pryd bynnag rydyn ni wedi gweld lle i wella, rydyn ni wedi codi ein llais a gwthio am newidiadau.

Mae ein cyfranogiad yn y cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth hwn yn parhau i mewn i 2024/2025.

Gallwch chi hefyd wylio'r fideo hwn am effaith ein rhan yn y newid arfaethedig i wasanaethau yng Ngorllewin Cymru.



# Effaith Newid Gwasanaeth #2

## Meddygfa Talacharn

Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym fod Coach and Horses wedi gwneud cais i gau ei gangen yn Nhalacharn. Dechreuodd gwaith ar unwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddeall y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg a sut y dylid cynllunio a strwythuro ymgysylltu â'r cyhoedd.

Buom yn gweithio gyda'n gilydd i gytuno ar gynllun ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd yn cynnwys nifer o ffyrdd o gyrraedd pobl am eu barn, er mwyn sicrhau bod y broses yn hygyrch i bawb.

Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu, buom yn ystyried yr hyn a glywsom gan y cymunedau lleol yr effeithiwyd arnynt a gwnaethom gynrychiolaeth i'r Bwrdd Iechyd y dylai'r feddygfa gangen aros ar agor.

Yn ein hymateb fe wnaethom gyfeirio at strategaeth "Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach" y Bwrdd Iechyd, sy'n anelu at ddarparu gwasanaethau iechyd sy'n cadw pobl yn iach, yn atal afiechyd neu'n atal gwaethygu afiechyd. Mae hefyd yn dweud ei fod yn gweithio mewn cymunedau i ddarparu cymorth a gofal mwy cydgysylltiedig "mor agos i'r cartref â phosib".



# Effaith Newid Gwasanaeth #3

## Yn gwthio am y gofal canser gorau posibl yng Nghaerdydd a'r Fro

Cyhoeddodd Caerdydd a'r Fro adroddiad 'Byw gyda Chanser' a gafodd dderbyniad da ym mis Ebrill. Amlygodd yr adroddiad yr adborth cadarnhaol a gawsom gan bobl ynghylch eu gofal, ac mae Canolfan Ganser Felindre wedi cyhoeddi llythyr o ddiolch, ynghyd â Chynllun Gwella i fynd i'r afael â rhai o ganlyniadau'r adroddiad.

Roedd y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gwella yn ymdrin â meysydd o bwysigrwydd gwirioneddol i bobl sy'n derbyn gofal, o:

- Drosglwyddo'r adborth cadarnhaol a gawsom gan bobl ynghylch eu gofal.
- Ail agor y caffi.
- Gwella cyfathrebu â phobl sy'n derbyn gofal.
- Helpu pobl i gael profion gwaed yn nes at adref yn hytrach na dim ond yn y ganolfan driniaeth.
- Sicrhau nad oedd pobl yn mynd ar goll yn y bwlch rhwng yr ysbyty a'r feddygfa.

Mae llawer o'r argymhellion y manylir arnynt yn yr adroddiad eisoes wedi'u cwblhau. Dyma enghraifft wych o werth ac effaith y ffordd y mae ein gwaith yn Llais yn arwain at welliannau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu.



# Effaith Newid Gwasanaeth #4

## Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Singleton

Mae Llais wedi bod yn gwrando ar fenywod, pobl sy'n sy'n rhoi genedigaeth a theuluoedd a gafodd ofal gan wasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Bae Abertawe. Rhannwyd yr hyn a ddywedodd pobl wrthym â'r Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Mamolaeth, a gofynnwyd iddynt ddangos i ni sut y gwnaeth y safbwyntiau hyn lywio eu gwaith. Tra bod y gwaith hwn yn parhau, dyma enghreifftiau o'r hyn rydym wedi'i gyflawni:

- Bydd Grŵp Cynghori sy'n cynnwys pobl â phrofiad byw, cynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth, Llais a grwpiau trydydd sector eraill yn cael ei ffurfio i gynghori'r Panel ar yr ymagwedd at eu gwaith.
- Mae gwasanaethau cymorth profedigaeth, iechyd meddwl a lles ar gael i'r rhai a allai fod eu hangen.
- Mae gwybodaeth am yr adolygiad wedi'i gwneud yn fwy gweladwy ar wefan y Bwrdd Iechyd ac mae gwefan ar wahân wedi'i lansio ar gyfer yr adolygiad ei hun: Adolygiad Mamolaeth a Newyddenedigol Annibynnol Bae Abertawe – Niche

Rydym yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a'r Bwrdd Iechyd i symud y broses adolygu ymlaen fel y gall gwasanaethau wella i bobl.

Mae 3,200 o fabanod yn cael eu geni bob blwyddyn yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rydyn ni'n gwybod efallai bod llawer ohonoch chi â straeon i'w rhannu.



# Effaith Newid Gwasanaeth #5

## Dementia – Dull cydgysylltiedig o ymdrin â gwasanaethau



Gwnaethom gynrychiolaeth i Awdurdodau Lleol Castell-nedd Port Talbot (CnPT) ac Abertawe yn ogystal â Bwrdd Iechyd Bae Abertawe a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPR) i: weithio gyda'n gilydd i greu neu ddatblygu ymhellach wasanaethau a ariennir ar y cyd sy'n darparu cyngor a chymorth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd.

Clywsom fod BPR Gorllewin Morgannwg yn llunio strategaeth dementia yn unol â Safonau Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddant yn edrych ar ba wasanaethau sydd ar hyn o bryd yn cefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia yn yr ardal i gyfeirio pobl yn well a gweithio allan unrhyw fylchau mewn gwasanaethau.

Roeddent yn rhannu eu hymrwymiad i ddarparu'r cyngor cywir ar yr amser cywir ar y cyd i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Dywedasant wrthym fod Gwasanaeth Cymorth Dementia wedi'i sefydlu drwy Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg gyda chymorth pum sefydliad allweddol ar draws Abertawe a Chastell Nedd a Phort Talbot. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia ynghyd â'u teuluoedd, ffrindiau, a gofalwyr trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor ynghylch cael cymorth yn y cartref, addasiadau ac atgyweiriadau tai, seibiant, cefnogaeth ac arweiniad. Dywedwyd wrthym y byddai'r gwaith hwn yn parhau i gael ei ddatblygu ymhellach.

Yn ogystal ag eistedd ar y BPR, rydym bellach hefyd yn eistedd ar eu Bwrdd Rhaglen Dementia ac Anabledd Dysgu gan ddod â llais pobl i'r bwrdd tra bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u datblygu. Diolch i bawb a siaradodd â ni am eu profiadau o fyw gyda dementia.



# EFFAITH EIN EIRIOLAETH CWYNION

# Ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion

Mae ein timau eiriolaeth cwynion yn darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a chyfrinachol am ddim i bobl ledled Cymru i'w helpu i godi pryderon neu wneud cwyn am y gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol y maent hwy neu rywun y maent yn gofalu amdano wedi'u derbyn.

Rydym hefyd yn cyfeirio pobl at sefydliadau eraill os ydym yn meddwl y gall rhywun arall hefyd helpu i ateb cwestiynau am wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol.

Roedd pobl yn aml eisiau arweiniad ar brosesau gweinyddol, megis sut i wneud cwynion ffurfiol, cael mynediad at gofnodion meddygol, neu lywio systemau iechyd a gofal. Mae darparu gwybodaeth ac arweiniad fel hyn yn rhan allweddol o'r gefnogaeth a gynigiwn drwy ein gwasanaeth ymholiadau.

Cafodd rhai pobl rydyn ni'n eu cefnogi anawsterau cyfathrebu, fel mynd drwodd i'r adran gywir neu wneud apwyntiadau. Rydym yn eu cynghori ar y camau nesaf i'w cymryd, fel cysylltu ag adrannau penodol neu ddefnyddio adnoddau ar-lein. Mewn llawer o achosion rydym yn gallu helpu pobl heb fod angen iddynt fynd drwy broses gwyno ffurfiol, drwy ddarparu gwybodaeth neu drwy godi'r pryder yn uniongyrchol gyda'r bobl dan sylw, e.e., (cysylltu â meddyg teulu, gwneud apwyntiad, neu ddatrys materion gweinyddol).



# Effaith eiriolaeth #1

Bu ddigwyddiad mewn llety gwarchodedig awdurdod lleol yn ymwneud â pherson ifanc a gludwyd i'r ysbyty ar ôl gorddos o feddyginiaeth.

Cwynodd rhieni'r person ifanc i'r sefydliad gofal i ddechrau am oruchwylio a rheoli eu plentyn yn yr amgylchedd gofal hwnnw. Nid oeddent yn fodlon ar yr ymateb a gawsant.

Cysylltон nhw â'n gwasanaeth am gyngor a chymorth pellach.

Rhoesom gymorth i godi'r pryderon parhaus i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leoli'r person ifanc gyda darparwr gofal hynny.

Fe wnaethom gefnogi'r rhieni trwy Cam 2 o'r Ymchwiliad Annibynnol o dan broses gwyno'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yr oedd rhieni'n anhapus yn eu cylch wedi'u cadarnhau gan yr ymchwiliad annibynnol.

Roedd ein gwasanaeth yn cefnogi'r rhieni i gwrdd â'r awdurdod lleol a'r darparwr gofal i siarad am y ffordd ymlaen. O ganlyniad, mae cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith ar gyfer gofal y person ifanc yn y dyfodol, ac mae hwn yn cael ei fonitro i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n dda.



# Effaith eiriolaeth #2

Yn dilyn taith i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, cafodd cleient ddiagnosis o fethiant y galon a hylif ar yr ysgyfaint ac fe'i cyfeiriwyd at ei meddyg teulu am ymchwiliad pellach.

Gwnaeth y meddyg teulu brofion gwaed a oedd yn dangos methiant y galon a dywedodd y byddent yn cyfeirio'r cleient at gardiolegydd.

Wrth i'w symptomau waethygu, fe benderfynon nhw dalu am ymgynghoriad preifat, gan nad oedden nhw wedi cael unrhyw hysbysiad eu bod ar restr aros.

Flwyddyn ar ôl gweld y meddyg teulu yn wreiddiol, canfuwyd bod camgymeriad wedi bod ac nad oedd unrhyw atgyfeiriad wedi'i wneud.

Yn ogystal â chefnogi'r cleient i godi'r gŵyn gyda'r Feddygfa, bu ein gwasanaeth eiriolaeth hefyd yn cysylltu â'r Bwrdd Iechyd ynghylch eu hatgyfeiriad Cardiaidd, a helpodd i symud materion ymlaen.



# Effaith eiriolaeth #3

Roedd tad y cleient wedi marw ar ôl derbyn gofal yn yr uned gofal dwys gyda Covid19. Roeddent yn cael trafferth cael trafferth delio â cholled eu tad yn sydyn ac roedd angen atebion arnynt i'w helpu i ddeall yr hyn a ddigwyddodd a pham y cymerwyd rhai penderfyniadau a chamau gweithredu.

Fe gysyllton nhw â'r Bwrdd Iechyd i ddechrau i godi pryderon ond roedden nhw'n cael trafferth gwybod sut i gymryd y cwyn ymlaen.

Cyflwynodd ein heiriolwr bryderon ychwanegol a chydgysylltu â'r bwrdd iechyd ar ei rhan ac yna cynorthwyodd i atgyfeirio ei chwyn at yr Ombwdsmon, a chadarnhawyd rhan ohoni.

Roedd y cleient yn ddiolchgar am gefnogaeth eiriolaeth trwy gydol y broses gwyno a bod nifer o'i chwestiynau a'i phryderon wedi cael sylw.



# Effaith eiriolaeth #4

Roedd ein gwasanaeth eiriolaeth wedi bod yn cefnogi cleient a oedd wedi bod yn dioddef o symptomau trallodus, a oedd wedi gwaethygu'n sylweddol dros amser.

Roeddent wedi llewygu gartref sawl gwaith ac wedi cael eu cludo i'r adran damweiniau ac achosion brys mewn ambiwlans ond ni chawsant ddiagnosis swyddogol nac unrhyw driniaeth ar gyfer eu symptomau. Cysylltodd y cleient â Llais a gwnaed cwyn ar eu rhan. Roedd y cleient yn anhapus ag ymateb y Bwrdd Iechyd Prifysgol gan na chynigiwyd unrhyw driniaeth iddynt, felly gofynnwyd am gyfarfod. Yn anffodus, ar ôl sawl mis fynd heibio, ni chynigiwyd dyddiad, felly cyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a argymhellodd y dylai'r Bwrdd Iechyd Prifysgol gynnig cyfarfod â'r Ymgynghorydd.

Cefnogodd ein heiriolwr y cleient yn y cyfarfod lle teimlai fod rhywun yn gwrando arnynt am y tro cyntaf. Yna fe'u cludwyd yn syth o'r cyfarfod i mgynghoriad ag Ymgynghorydd lle cawsant eu harchwilio, a threfnwyd ymchwiliadau.



# Effaith eiriolaeth #5

Roedd ein heiriolwyr cwynion yn cefnogi cwyn Ms X am ofal ei thad, Mr A.

Ar ôl rhedeg i mewn i'r feddygfa gyda phoenau difrifol yn ei frest, chwysu a lliw melyn, dywedwyd wrth Mr A am fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys a dangos y slip a roddwyd iddo gan y meddyg teulu.

Gan adael y feddygfa yn ei fws mini gyda'i fam oedrannus, roedd yn bwriadu mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys ar ôl gorffen ei waith. Dioddefodd Mr A drawiad enfawr ar y galon wrth olwyn y car, gan chwilfriwio i wal.

Yn anffodus bu farw yn y fan a'r lle.

Yn dilyn adolygiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gofal Sylfaenol a Chymunedol, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei chanfyddiadau:

- Roedd practis y meddyg teulu y tu allan i'r hyn a argymhellir gan Ganllawiau CG 95 NICE.
- Mae angen ailadrodd y cyngor ynghylch ambiwlans 999 pan fydd claf yn cyflwyno achos brys acíwt i bob practis meddyg teulu.
- Bydd y cyngor i gleifion ynghylch gyrru pan fydd yn sâl yn cael ei ailadrodd i bob practis meddyg teulu a'r
- Angen i ddogfennu set gyflawn o sylwadau

Yn Llais, rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion hyn yn gwella gofal a chymorth i bobl sy'n ddifrifol wael.



# Effaith eiriolaeth #6

Cysylltodd rhiant Ms X â'n tîm Llais Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe am eiriolaeth cwynion ar ôl i bractis deintyddol Ms X ganslo chwe apwyntiad gwahanol ar gyfer triniaeth.

Roedd Ms X mewn poen sylweddol ac yn cael trafferth ymdopi. Roedd angen tynnu dannedd poenus arni ar frys ond roedd yr apwyntiadau'n cael eu canslo o hyd.

Nid oedd wedi derbyn cydnabyddiaeth i gŵyn ysgrifenedig gynharach. Roedd Ms X i fod i fynd i ffwrdd am rai dyddiau ond roedd yn bwriadu canslo oherwydd y boen yr oedd yn dioddef.

Cysylltodd ein heiriolwr cwynion â Rheolwr y Practis i ofyn pam nad oedd y gŵyn wedi'i symud ymlaen ac i drafod yr apwyntiadau a ganslwyd. Nodwyd problem gyda chyfathrebu a'r broses ailbenodi yn y practis.

Ffoniodd y cleient yn fuan wedyn i ddweud bod ganddi apwyntiad y prynhawn hwnnw. Ar ôl tynnu tri dant, aeth Ms X ar ei thaith i ffwrdd fel y cynlluniwyd.

Derbyniodd y cleient ymddiheuriad hefyd gan y practis ac mae wrth ei bodd gyda'r canlyniad.



# Effaith eiriolaeth #7

## Amseroedd Aros ar gyfer Llawdriniaeth Orthopedig

Siaradodd Rhanbarth Gorllewin Cymru â dyn 84 oed a oedd wedi bod yn aros am lawdriniaeth orthopedig ers dechrau 2019. Yn ystod y cyfnod hwnnw dirywiodd ei allu symud o gwmpas, gyda hyd yn oed un cam yn achosu llawer o boen. Disgrifiodd ei ansawdd bywyd fel un nad oedd yn bodoli. Roedd y boen mor ddifrifol fel nad oedd wedi cael noson dda o gwsg ers dros bedair blynedd.

Ei gwestiwn i Llais oedd **"a ydw i wedi cael fy nghondemnio i fyw blynyddoedd olaf fy mywyd mewn poen, heb unrhyw siawns o gael llawdriniaeth – ydw i'n mynd i farw yn aros am lawdriniaeth?"**

Roedd wedi dioddef o ganser yn ystod y cyfnod hwn a chafodd ei drin yn gyflym ac yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gan fod y driniaeth canser wedi para mwy na 21 diwrnod roedd y canllawiau'n awgrymu y dylid ei dynnu oddi ar unrhyw restr aros a dechrau eto pan gytunodd meddygon ei fod yn ffit. Byddai hyn wedi golygu iddo dreulio blynyddoedd yn hwy yn aros am lawdriniaeth orthopedig.

Ysgrifennon ni at y Bwrdd Iechyd yn gofyn iddynt ei roi yn ôl ar y rhestr, yn y lle y dylai fod wedi bod. Cytunodd y Bwrdd Iechyd, ac mae'r claf bellach wedi cael cynnig llawdriniaeth yn fuan.



# EFFAITH GWIRFODDOLWYR



# Effaith Gwirfoddolwyr #1

## Fforddoli ysbytai gorllewin Cymru

Yn dilyn adborth, roedd tîm Gorllewin Cymru eisiau gwybod sut brofiad oedd cyrraedd pob un o'r 4 prif ysbyty yn y rhanbarth (gan gynnwys parcio) ac yna defnyddio'r arwyddion a'r cyfarwyddiadau a ddarperir ar gyfer gwahanol adrannau, wardiau ac unedau y mae cleifion angen eu cyrraedd.

Gyda chymorth ein gwirfoddolwyr, fe wnaethom gynllunio rhai senarios sylfaenol gyda'r nod o wirio pa fath o wybodaeth oedd ar gael ac a oedd yn hawdd dod o hyd iddi.
Roeddem hefyd yn ffodus iawn i gael cymorth a chefnogaeth Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, (PPF), elusen annibynnol sy'n cael ei rhedeg gan ac ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.

Rhoddodd y prosiect hwn gipolwg diddorol i ni ar brofiadau pobl wrth iddynt gynllunio a chyrraedd yr ysbyty. Fe wnaethom rannu ein hadroddiad terfynol gyda'r Bwrdd Iechyd gydag awgrymiadau ar gyfer gwelliannau gan gynnwys parcio, arwyddion a mapiau.



# Effaith Gwirfoddolwyr #2

## Meddygfa Hanmer Gogledd Cymru

Yng Ngogledd Cymru mae ein tîm rhanbarthol wedi chwarae rhan allweddol wrth symud ymlaen y cynigion ar gyfer uwchraddio cyfleusterau meddygol Meddygfa Hanmer sy'n gwasanaethu bron i 2000 o gleifion.

Ar ein cais ni, cyfarfu Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) â'r Meddyg Teulu Hanmer a'i staff. Hwylusodd Llais y cyfarfod hwn gyda chefnogaeth gan un o'n gwirfoddolwyr yr oedd ei brofiad fel prif feddyg teulu yn amhrisiadwy wrth helpu i lywio rhywfaint o'r "biwrocratiaeth" ac sydd wedi arbed cryn dipyn o amser i'r datblygiad o ganlyniad.



# Effaith Gwirfoddolwyr #3

## Profiad claf gaeaf Gwent

Yng Ngwent cymerodd 22 o'n gwirfoddolwyr ran mewn prosiect ymgysylltu chwe wythnos i gefnogi un o flaenoriaethau ffocws y rhanbarth o 'gael gofal yn gyflym pan fyddwch ei angen'.

Ymgysylltodd ein gwirfoddolwyr â 172 o bobl a gymerodd yr amser i rannu eu profiadau o gael mynediad at ofal a thriniaeth mewn Unedau Mân Anafiadau neu Adrannau Achosion Brys yng Ngwent.

Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu, roeddem yn gallu rhannu'r hyn a glywodd ein gwirfoddolwyr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chyflwyno sylwadau ar gyfer gwelliannau yn y gwasanaeth.

Heb ein gwirfoddolwyr ni fyddem wedi gallu bod â phresenoldeb ar draws y safleoedd ysbyty lluosog yn y rhanbarth a byddem wedi colli mewnwelediadau gwerthfawr gan y rhai a fynychodd y gwahanol safleoedd.






# DIOLCH I CHI AM DDARLLEN EIN HADRODDIAD EFFAITH CYNTAF

MAE EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON LLAWN AR GAEL YMA